

RHAGARWEINIAD

Mewn blynyddoedd diweddar bu newid trawiadol yn y sector amaethu â'r yng Nghymru. Rhwng 1990 a 2000 lleihaodd yr arwynebedd a neilltuwyd ar gyfer cynydu o 56,000ha i 46,000ha. Gall newidiadau diweddar megis dadgyplu, newid yn yr hinsawdd a chyflwyno cynlluniau amaeth-amgylcheddol wrthdroi'r duedd hon yng nghynhyrchiad cynydu.

Mae'r daflen hon yn canolbwyntio ar ddau grndd posib i ffermwyr Cymru: ceirch noeth a triticales. Dim ond symiau cymedrol o wrtaith nitrogen sydd eu hangen ar y ddau grndd (80-120kg N/ha) a haen o wrtaith cynhaliaeth yn cynnwys ffosfforws a potasiwm (tua 60 kg P₂O₅)5 a K20/ ha). Mae'n nhw'n dioddef lai oddi wrth bla ac afiechydon na gwenith neu haidd a gellir defnyddio llawer o'r pleileiddiaid yr argymhellir ar gyfer y cynydu hyn ar geirch noeth a triticales hefyd.

Fel yn achos pob cnwd newydd, cynghorir tyfwr i sicrhau bod ganddynt wybodaeth dda am ofynion y farchnad y maen nhw'n anelu amdani, a sut y byddan nhw'n mynd ati i gynhyrchu cnwd sy'n cwrdd â'r gofynion ymhell cyn dechrau plannu.

CEIRCH NOETH

Cefndir

Mewn mathau traddodiadol o geirch mae'r cnewyllyn wedi ei amgylchynu gan blisgyn trwchus sy'n lleihau gwerth ynni'r grawn. Mewn ceirch noeth mae'r cnewyllyn yn cael ei ddyrnu'n rhydd o'r hedyd adeg cynhaeaf a thrwy hynny'n cynyddu maeth, yn enwedig i anifeiliaid nad ydynt yn cnoi cil. Er bod cynnyrch ceirch noeth fesul uned o dir tua 20 i 25% yn is na chynnyrch mathau traddodiadol â phlisgyn, mae'r grawn yn cynnwys mwy o olew a maeth ac felly'n gwerthu am brisiau uwch.

Agronomeg

Mae'r mathau sy'n tyfu yn y gaeaf yn fwy poblogaidd na'r rhai sy'n tyfu yn y gwanwyn oherwydd eu bod yn rhoi mwy o gynnyrch, ac ar hyn o bryd ychydig o fathau gwanwyn sydd ar gael ar y farchnad.

Gellir tyfu ceirch noeth ar amrywiaeth eang o briddoedd. Dylid osgoi safleoedd lle mae llawer o borfa ddu neu geirch gwyllt yn tyfu oherwydd gall fod yn anodd rheoli'r chwyn hyn. Rhaid rheoli unrhyw gnydau gwyllt neu chwyn er mwyn osgoi llygru'r cnwd gan gaiff ei gynaeafu.

Mae ceirch noeth yn cael eu tyfu mewn ffordd debyg iawn i'r mathau confensiynol â phlisgyn. Dylai tyfwr ddewis math sy'n rhoi cynnyrch da, gwellt isel, yn gwrthsefyll gwynt cryf yn dda, pwysau penodol uchel a sgriniadau % isel.

Heuwch ar raddfa o 100/125Kg/ha ar ddyfnder o 25-40m gan ddefnyddio peiriannau drilio cynydu confensiynol. Peidiwch â'i hau yn rhy fas, oherwydd mae adar yn hoff iawn o'r hadau.



Ffig 1: Ceirch Noeth

Os ydych yn hau'n gynnar yn yr hydref gall llyslau ymosod arno a gall ddal firws y gawod felen sy'n gallu bod yn fwy andwyol i geirch nag i rawn eraill. Ni ddylech ddefnyddio gormod o wrtaith nitrogen gan fod hyn yn gallu peri i'r ceirch fethu gwrthsefyll gwynt cryf cystal. Yr afiechydon sy'n peri'r problemau mwyaf yw llwydni a chorunrd, er y gellir rheoli hyn trwy ddefnyddio is-rywogaethau sy'n gallu eu gwrthsefyll a ffwngladdwyr.

Bydd cnwd sy'n cael ei hau yn y gwanwyn yn debygol o fod yn barod i'w gynaeafu wythnos neu ddwy ar ôl haidd y gwanwyn. Er mwyn sicrhau sampl clir gydag ychydig o blisgyn yn glynu wrth y grawn, mae'n hollbwysig bod y cnwd yn gwbl aeddfed cyn defnyddio'r dyrnwr medi. Os bydd dyrnwr medi wedi cael ei osod ar gyfer haidd a gwenith mae'n bosib y bydd angen addasu gosodiadau'r drymiau a chyflymder y wyntyll ryw ychydig oherwydd bod grawn y ceirch noeth yn llai. Rhaid sychu'r grawn i oddeutu 14% yn syth ar ôl y cynhaeaf. Rhaid sychu grawn sydd i'w storio am amser hirach i lawr i 12% o'r cynnwys lleithder. Mae ceirch noeth yn gwrthsefyll llif awyr yn dda felly os ydych yn bwriadu ei sychu ar y llawr, argymhellir peidio â rhoi haen ddyfnach na 1m yn y cyfnodau sychu cychwynnol. Os ydych yn sychu fesul swp gwnewch yn siŵr bod y tymheredd yn isel (<50°C) er mwyn cadw ansawdd yr olew.

Marchnadoedd a defnyddiau

Mae ceirch noeth yn cynnwys 30% yn fwy o brotein (11-13% fel arfer) a 40-50% yn fwy o olew na mathau â phlisgyn. Mae marchnad sylweddol yno ar gyfer porthiant protein uchel, o ansawdd uchel i anifeiliaid nad ydynt yn cnoi cil, yn enwedig dofednod. Oherwydd bod y grawn yn cynnwys mwy o faeth mae'n gallu denu prisiau uchel o fewn marchnadoedd bwyd pobl lle mae'r cynnwys ffibr hydawdd o ddiddordeb. Mae marchnad yn datblygu hefyd ar gyfer ffractsiynu ceirch noeth i'w defnyddio mewn colur. Mae'n bosib gwerthu gwellt ceirch am brisiau uchel fel porthiant i bobl sy'n cadw ceffylau gwerthfawr.

Rhoddir ffiniau gros mynegol ar gyfer ceirch noeth yn Nhabl 1, ynghyd â'r rhai hynny ar gyfer triticales a haidd.

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â CALU – e-bost: calu@bangor.ac.uk ffôn: 01248 680450

Er bod CALU yn ymdrechu i'r eithaf i sicrhau fod y wybodaeth a roddir yn y daflen hon yn gywir, ni all gymryd y cyfrifoldeb am ganlyniadau unrhyw gamau a gymerir ar sail ei chynnwys

ds: Bydd ffiniau gros yn amrywio'n sylweddol rhwng busnesau unigol. Dylid defnyddio'r ffigurau a ddyfynnir yn y tabl isod fel canllaw yn unig wrth baratoi cyllidebau. Mae'r ffigurau'n cyfeirio at gnydau a heuir yn y gwanwyn.

Tabl 1: Ffiniau gros mynegol / ha ar gyfer triticale, ceirch noeth a haidd

	Triticale	Ceirch noeth	Haidd
ALLBWN			
Cynnyrch grawn (t/ha)	5.75	5	5.5
Pris y grawn (£/t)	58	72	60
Cyfanswm Grawn £/ha	333.5	360	330
Cynnyrch gwellt (t/ha)	4	4	3.75
Pris gwellt (£/t)	30	35	40
Cyfanswm gwellt £/ha	120	140	150
Allbwn cyfan £/ha	453.5	500	480
COSTAU AMRYWIOL			
Hadau	70	70	42
Gwrtaith	55	55	55
Chwistrellwr	60	60	70
Cyfanswm Costau Amrywiol £/ha	185	185	167
FFIN GROS £/ha	268.5	315	313

TRITICALE

Cefndir

Mae triticale yn rawnfywd croesyryw a grëwyd trwy groesi gwenith â rhyg. Defnyddir rhaglen wedyn i gynhyrchu croesyryw sefydlog, hunan-atgennedlol na fydd yn troi'n ôl yn wenith neu ryg. Manteision positif y croesfridio hwn yw'r cynnyrch gwenith uchel a gwydnwch rhyg wrth wrthsefyll afiechyd ac amodau anfodddhaol. Mae'r enw triticale yn deillio o enwau genws gwenith (*Triticum*) a rhyg (*Secale*).

Agronomeg

Mae mathau o triticale gaeaf a gwanwyn ar gael yn fasnachol yn y DU. Mae angen i'r mathau gaeaf wanwyneiddio a rhaid eu hau yn yr hydref neu ddechrau'r gwanwyn (cyn canol Chwefror) er mwyn iddynt gynhyrchu blodau a grawn ar y coesyrrau. Gellir hau mathau'r gwanwyn ddiwedd yr hydref neu yn y gwanwyn ac efallai fod hyn yn ddewis gwell mewn ffermydd lle mae da byw.

Gellir tyfu triticale ar y rhan fwyaf o fathau o bridd, gan ddefnyddio offer drilio cnydau confensiynol. Argymhellir hau'r had i ddyfnder o 20-30mm, a dylai tyfwyr geisio gosod bwllch o 100-120mm rhwng rhesi, a defnyddio cyfradd hau o 200-230Kg/ha. Gan ei fod yn gwrthsefyll sychder yn dda mae triticale'n tyfu'n well mewn pridd tywodlyd na chnydau eraill. Ar y cyfan mae triticale yn gnwd hawdd ei reoli oherwydd ei fod yn wydn ac yn gwrthsefyll afiechydon yn dda.

Gellir pori cnydau sy'n cael eu hau yn yr hydref hyd at ddwywaith yn hwyr yn y gaeaf ac yn gynnar yn y gwanwyn, sy'n ffynhonnell porthiant defnyddiol. Mae pori'r cnwd rywfaint, dan reolaeth, yn gallu hyrwyddo tileru, ond gall gor-bori achosi niwed a thrwy hynny leihau cynnyrch. Bydd defaid yn llai tebygol na gwartheg o gorddi a sathru'r pridd yr adeg hon o'r flwyddyn.

Gan fod y gwellt yn tueddu i fod yn dal ac yn wan mae'r cnwd yn dueddol o blygu mewn gwynt cryf, yn enwedig os yw'n cael ei dyfu ar ôl porfa sydd wedi cael ei gwrteithio'n dda. Gall fod yn anodd defnyddio dyrnwr medi arno hefyd oni bai fod rheolydd tyfiant yn cael ei ddefnyddio. Argymhellir bod tyfwyr yn dewis math sy'n rhoi cynnyrch da, gwellt byr ac sy'n gallu gwrthsefyll gwynt cryf yn dda. Gellir hau triticale hefyd fel cnwd cyfan. Mewn achos felly, gellir ei hau ar ei ben ei hun neu'n gymysg, fel arfer ar y cyd â chodlysiau. Mae'n bosib medi cnwd cyfan yn gynt na medi grawn yn unig. Mae hyn yn caniatáu i laswellt, cnwd porthi gaeaf fel bresych, neu rawn arall gael ei dyfu ar ôl i'r cnwd cyfan gael ei gasglu.

Marchnadoedd a defnyddiau

Tyfir triticale yn bennaf ar gyfer bwydo anifeiliaid. Mae cyfran uchel o brotein yn y grawn a lefelau uchel o'r asid amino lysin, sy'n ei gwneud yn addas iawn i'w gynnwys mewn bwyd moch a dofednod.

Gan fod cost cynhyrchu triticale yn arbennig o isel fesul uned, gallai fod yn gnwd addas i'w hyrwyddo ar gyfer cynhyrchu bioethanol yn y dyfodol.